# Taflen Ffeithiau Llinell Faethu Cymru:
**Panel, adolygiadau a therfynu cymeradwyaeth**

## Rhagymadrodd
Mae gan y panel maethu ran sylweddol a chyson yn eich gyrfa faethu. Mae'r daflen ffeithiau hon yn cwmpasu'i rôl yn y broses gymeradwyo.

## Y panel maethu
Mae'n rhaid i bob gwasanaeth maethu gael panel maethu. Ei rôl yw ystyried p'un a all pobl sy'n ymgeisio i ddod yn ofalwyr maeth gael eu cymeradwyo ai peidio, ac os cânt, o fewn pa feini prawf, megis oedran, rhywedd a nifer y plant, ynghyd â'r math o leoliad, megis byrdymor, parhaol, seibiannau byrion a phlentyn a rhiant.

Mae paneli hefyd yn ystyried parhad cymeradwyaeth ar ffurf adolygiadau blynyddol o ofalwyr, yn cynnwys cais bod cymeradwyaeth yn cael ei therfynu. Mae'r panel yn gorff amlddisgyblaethol sy'n cynnwys:

- gweithwyr cymdeithasol o'ch sefydliad nad oes ganddynt gyfrifoldeb uniongyrchol drosoch chi a'ch teulu
- gweithwyr proffesiynol ym maes gofal plant o gefndiroedd iechyd ac addysg
- gofalwr maeth o wasanaeth maethu arall
- rhywun a fu mewn gofal maeth ei hun.

Mae'r cadeirydd yn berson proffesiynol profiadol ym maes gofal plant, naill ai'n rheolwr yn eich sefydliad neu'n rhywun annibynnol. Mae'n sicrhau bod y cyfarfod yn gweithredu'n llyfn, bod gweithdrefnau'n cael eu dilyn a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud. Gall paneli fod yn brofiad anodd, ac felly mae'r cadeirydd yn sicrhau y gall pawb gyfrannu, yn cynnwys gofalwyr.

Gallwch fynychu panel, ac fe argymhellwn eich bod yn gwneud hynny. Byddwch chi a'ch gweithiwr cymdeithasol yn cyfrannu at y drafodaeth ac yn ymateb i gwestiynau cyn y bydd aelodau'n penderfynu ar eu hargymhelliad.

## Paneli a phenderfynu
Yng Nghymru, mae'r panel yn gwneud argymhelliad ynglŷn â'ch cymeradwyo. Anfonir hyn at Benderfynwr yr Asiantaeth - Agency Decision Maker (ADM), ynghyd â'r holl adroddiadau a chofnodion y panel ar gyfer penderfyniad terfynol. Mae Penderfynwr yr Asiantaeth fel arfer yn uwch-reolwr profiadol o fewn y gwasanaeth maethu nad yw wedi bod yn gysylltiedig yn flaenorol â'r broses asesu neu adolygu.

Fe'ch hysbysir am y penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl. Mae cymeradwyaeth yn cynnwys meini prawf penodol, fel yr uchod. Os na chewch eich cymeradwyo, mae'n rhaid cynnwys

y rhesymau, ynghyd â chopi o argymhelliad y panel. Mae gennych wedyn 28 niwrnod i ymateb yn ysgrifenedig, naill ai i ddarparwr y gwasanaeth maethu neu i Fecanwaith Adolygu Annibynnol Cymru, i gael adolygiad o ddyfarniad o gymhwyster y darparwr. Dylid gwneud hyn o fewn 28 niwrnod o dderbyn y dyfarniad o gymhwyster:

- dim ymateb – mae'r penderfyniad yn derfynol
- herio'r penderfyniad, yn cynnwys cais i newid meini prawf y cymeradwyo – cyfeirir yr achos yn ôl i'r panel. Mae Penderfynwr yr Asiantaeth wedyn yn gwneud penderfyniad terfynol gan ystyried ystyriaethau pellach y panel.

## Adolygiadau o ofalwyr maeth

Mae adolygiadau'n digwydd o fewn 12 mis o'r dyddiad y cawsoch eich cymeradwyo gyntaf ac wedyn bob 12 mis ar ôl hynny. Mae'n rhaid i'r adolygiad cyntaf ddod i banel. Nid yw hyn yn ofynnol ar gyfer ail adolygiad nac adolygiadau dilynol ond mae llawer o wasanaethau maethu'n eu cyflwyno nhw ar amrywiol gyfnodau; er enghraifft, ymhen tair neu bum mlynedd.

Mae'r adolygiad yn archwilio'ch perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf o ran bodloni'r safonau a ddisgwylir gan bob gofalwr maeth. Mae'n cwmpasu pob agwedd o'ch rôl:

- diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal
- cyfathrebu â phlant
- cadw plant yn ddiogel
- diwylliant ac amrywiaeth
- iechyd
- addysg
- hamdden a digwyddiadau cymdeithasol
- paratoi pobl ifanc ar gyfer annibyniaeth
- eich hyfforddiant a'ch datblygiad
- cadw cofnodion
- gweithio â gweithwyr proffesiynol eraill
- gweithio â'r teulu biolegol.

Llunnir adroddiad yr adolygiad gan eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol, neu weithiau fe wna person annibynnol gwblhau'r adolygiad, ac fe fyddant yn ei drafod gyda chi ac yn rhoi copi ichi o flaen llaw – fe argymhellwn bythefnos. Mae'n ymwneud â'r hyn rydych *chi* wedi'i wneud, gan ddefnyddio enghreifftiau a thystiolaethau eraill. Mae'n rhaid ceisio barn:

- gofalwyr
- unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal rydych chi'n gofalu amdano
- unrhyw awdurdod lleol sy'n gyfrifol am blentyn yn eich gofal yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Mae arferion da yn awgrymu y dylid cael adborth hefyd oddi wrth blant biolegol, y Swyddog Adolygu Annibynnol, ysgolion ac unrhyw weithiwr proffesiynol arall sy'n gallu bwrw sylw ar eich maethu.

Efallai y bydd arnoch eisiau gofyn am newidiad i'ch telerau cymeradwyo – er enghraifft, i gael eich caniatáu i faethu plant hŷn neu blant iau. Mae'r adolygiad blynyddol yn amser da i drafod hyn - fe all y gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol wedyn argymell unrhyw newidiadau yn ei adroddiad.

Nodwch y gall y gwasanaeth maethu ddewis ystyried eich cymeradwyo a chyflwyno adolygiad gerbron panel unrhyw adeg. Gallai honiad neu bryderon difrifol am arferion sbarduno adolygiad, fel y gallai unrhyw newidiadau mawrion ar eich aelwyd, megis problem iechyd ddifrifol neu

wahaniad neu ysgariad. Mae gwneud penderfyniadau fel yr uchod, yn cynnwys eich hawl chi i herio.

## Terfynu cymeradwyaeth

Os yw'r gwasanaeth maethu'n dymuno terfynu'ch cymeradwyaeth, mae'n rhaid iddynt ysgrifennu adroddiad yn amlinellu'r rhesymau pam, fydd wedi'i ategu gan dystiolaeth. Gall hyn fod ar ffurf adolygiad neu adroddiad gwahanol, a ddaw gerbron panel ac wedyn mae'n mynd gerbron Penderfynwr yr Asiantaeth.

Fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig. Mae gennych wedyn 28 niwrnod ar ôl dyddiad y llythyr i herio hyn, eto yn ysgrifenedig (gweler cylchgrawn 168 Gofal Maeth am gyngor). Caiff y mater wedyn ei gyfeirio yn ôl i'r panel, ac mae Penderfynwr yr Asiantaeth yn ystyried eu hargymhelliad.

Mae penderfyniad Penderfynwr yr Asiantaeth yn derfynol. Os oes gennych sail dros anghytuno, fe allwch naill ai gwneud cŵyn drwy drefn gwyno'ch gwasanaeth neu fynd ag achos at Fecanwaith Adolygu Annibynnol. Ni chewch wneud y ddau beth.

## Ymddiswyddo

Gallwch gynnig eich ymddiswyddiad unrhyw adeg, gan roi 28 niwrnod o rybudd.

## Sut y gall Y Rhwydwaith Maethu helpu

Mae'r Rhwydwaith Maethu'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth bob amser yn gyfoes ac ar gael drwy'n llinellau cymorth, ein cyhoeddiadau, ein hyfforddiant a'n gwasanaethau ymgynghori hanfodol i'n haelodau.

### Cyngor

Llinell Faethu Cymru
Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 rhwng 9.30yb - 12.30yp rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Os ffoniwch ar unrhyw adeg arall, gadewch neges, os gwelwch yn dda, ac fe wna rhywun eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn:
Fosterlinewales@fostering.net
Rhwydwaith Maethu Cymru,
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

### Cefnogaeth ac adnoddau

Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth, tra bod ein cymuned ar-lein yn dod â gofalwyr maeth ynghyd i gael cefnogaeth a chynghorion gan gymheiriaid. Gallwch fewngofnodi i rannu'ch profiad ac i gael cyngor gan ofalwyr maeth eraill. Mae ein cymuned ar-lein yn fan diogel a sicr i drafod materion gofal maeth. thefosteringnetwork.org.uk

### Hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori

Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu chi. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn sarah.mobedji@fostering.net.

## Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, ac fe ddaw â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod.

## Cysylltu â Ni

I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:
Rhwydwaith Maethu Cymru,
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead,
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Ffôn: 029 2044 0940
E-bost: wales@fostering.net
Gwefan: thefosteringnetwork.org.uk

/thefosteringnetwork @fosteringnet

© Y Rhwydwaith Maethu 2017